

Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES**YSGOLION GWLEDIG AC YSGOLION BACH****Cefndir**

1. Cwblhaodd y Pwyllgor hwn ei adolygiad ar Gyflenwi Lleoedd mewn Ysgolion yn gynharach eleni, a chafwyd trafodaeth ar yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Gorffennaf. Cadarnhaodd yr adolygiad bod lleoedd dros ben mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru; ar y cyfan, mae tua 13% o'r lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion yn wag, ac mewn rhai ysgolion, mae nifer sylweddol o leoedd gwag. (Ceir crynodeb o'r data diweddaraf yn Atodiad A). Gall cadw niferoedd rhy fawr o leoedd gwag fod yn wastraff adnoddau, ond yr oedd yn amlwg o'r arolygon a gynhaliwyd gan Archwilwyr Cyfrifon Dosbarth bod anghysondebau yn y modd yr oedd yr Awdurdodau Addysg Lleol (AALI'au) yn rheoli lleoedd mewn ysgolion yn strategol, yn mesur faint o leoedd sydd ar gael mewn ysgolion ac yn mynd i'r afael â goblygiadau posibl lleoedd gwag mewn ysgolion o safbwynt cost.

2. Cydnabu'r Pwyllgor na ddylid dibynnu'n unig ar ddefnyddio lleoedd dros ben mewn ysgolion i ddangos lle y gallai fod angen cynigion i aildrefnu'r ddarpariaeth. Yr oedd yn rhaid ystyried materion eraill hefyd, megis cyflwr yr adeiladau, effaith unrhyw newidiadau ar y gymuned a'i chynaliadwyedd, rhoi dewis i rieni, cludiant o'r cartref i'r ysgol a'r safonau a gyrhaeddwyd. I grynhoi, argymhellodd yr Adroddiad y canlynol:

- Dylai Archwilwyr Cyfrifon Dosbarth gynnal arolwg arall o sut y mae'r AALI'au yn rheoli'r cyflenwad o leoedd sydd ar gael mewn ysgolion
- Dylid llunio canllawiau diwygiedig:
 - ar gyfer cyfrifo faint o leoedd sydd ar gael mewn ysgolion
 - ar gynnwys Cynlluniau Trefnidaeth Ysgol
 - ar y materion y dylai'r AALI'au eu hystyried wrth reoli lleoedd mewn ysgolion, yn enwedig mewn perthynas ag ysgolion gwledig ac ysgolion bach, ar annog y gymuned i ddefnyddio adeiladau ysgolion a bodloni'r galw am addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

3. Wrth dderbyn yr argymhellion hynny, cynigiais y dylid sefydlu gwahanol elfennau'r canllawiau diwygiedig cyn comisiynu mwy o waith gan y Comisiwn Archwilio.

4. Gallaf adrodd fod fy swyddogion wedi sefydlu gweithgor ar y cyd â'r Archwilwyr Cyfrifon Dosbarth a'r Clwb Meincnodi Cymru Gyfan ar Gynllunio a Darparu Lleoedd mewn Ysgolion, sy'n perthyn i Gymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru. Diben y gweithgor fydd llunio methodoleg newydd ar gyfer mesur faint o leoedd sydd ar gael mewn ysgolion. Gweithgor technegol yw hwn, a disgwylir iddo gymryd tua chwe mis i lunio fformwlâu diwygiedig, y bydd yn rhaid eu hymgorffori yn y Rheoliadau, ar ôl ymgynghori â'r AAL'au. Mae'r swyddogion hefyd wedi rhoi ymateb i'r AAL'au ar welliannau posibl i gynnwys Cynlluniau Trefniadaeth Ysgol, a bydd yn rhaid eu cynnwys yn y canllawiau diwygiedig ffurfiol ar gyfer y rownd nesaf o Gynlluniau. Maent hefyd yn ystyried a ellid gwella'r cylch blynyddol ar gyfer y cynlluniau hyn er mwyn iddynt gael eu cyhoeddi ar adeg fwy perthnasol ac er mwyn cynnwys ffigurau mwy diweddar ar niferoedd y disgyblion.

5. Yr oedd y Cytundeb Partneriaeth yn addo y byddem yn datblygu ein polisi ar ysgolion gwledig ac ysgolion bach, ac yn y drafodaeth ym mis Gorffennaf, addewais gyflwyno papur i'r Pwyllgor ar y pwnc hwn. Bryd hynny, dywedais fy mod yn dymuno yn gyntaf ystyried casgliadau tasglu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a oedd yn edrych ar faterion sy'n ymwneud ag ysgolion bach. Yn ddiweddar, cymeradwyodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru adroddiad ei dasglu, a nodir ei brif ganfyddiadau ym mharagraffau 18-21 isod. Yn fy marn i, mae ei waith yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol, ac yr wyf yn croesawu ei argymhellion.

6. Diben y papur hwn yw trafod materion sy'n ymwneud ag ysgolion gwledig ac ysgolion bach, a nodi ein safbwyntau ar y materion hyn, o fewn cyd-destun ehangach y canllawiau polisi ar yr holl faterion sy'n ymwneud ag aildrefnu ysgolion. Yn Atodiad D, ceir drafft o'n canllawiau polisi diwygiedig, sy'n esbonio'r meini prawf y bydd y Cynulliad yn eu defnyddio wrth ystyried unrhyw gynigion i aildrefnu lleoedd mewn ysgolion, ac sy'n cynnwys ein polisi ar ysgolion gwledig. Mae'n fwriad gennyf anfon y canllawiau hyn at yr AAL'au ac eraill cyn bo hir er mwyn iddynt gyflwyno'u syniadau arnynt. Yn dilyn hynny, anfonir canllawiau pellach wedi'u diweddarau at yr AAL'au ar y gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno cynigion.

Y mater o dan sylw

7. Bellach, mae mwy o ymwybyddiaeth o broblemau cefn gwlad, a chydabyddiaeth bod amddifadedd economaidd ac allgáu cymdeithasol yn gallu llechu y tu ôl i'r ddelwedd o lonyddwch cefn gwlad. Mae'n bosibl y bydd pobl mewn angen yng nghefn gwlad yn cael anhawster wrth geisio cael gafael ar ystod o wasanaethau cyhoeddus, ac fel yn achos pob cymuned, er lles y cymunedau hynny, mae'n hanfodol bod gwasanaeth addysg effeithiol yn cael ei ddarparu i blant cymunedau gwledig. Ar y cyfan, ysgolion bach yw ysgolion gwledig. Yn aml hefyd maent yn ysgolion sy'n mynd yn llai o safbwynt nifer y disgyblion sydd ynddynt, a'r dosbarthiadau'n gwacáu o ganlyniad i ddiboblogi gwledig a'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y plant oed ysgol. Gellid trafod yn helaeth y diffiniad o'r hyn sy'n 'wledig', ond at ddiben y papur hwn, yr ydym wedi canolbwyntio'n bennaf ar ysgolion bach, a all gynnwys ysgolion mewn ardaloedd trefol. Adeiladwyd rhai ohonynt fel ysgolion bach yn Oes Fictoria, ac o ganlyniad i hynny, dim ond cyflysterau cyfyngedig sydd ganddynt; mae eraill mewn adeiladau mwy o faint, ond bod ganddynt lawer o leoedd dros ben sy'n ddrud i'w cadw.

Yr heriau addysgol i ysgolion bach

8. Gall ysgolion bach wynebu problemau wrth ddarparu addysg o ansawdd uchel, gan gynnwys y canlynol:

- dosbarthiadau oed cymysg, sy'n aml yn cynnwys plant o 3 grŵp oedran a mwy, ac weithiau gamau allweddol gwahanol;
- grwpiau bach iawn o blant o'r un oedran, sy'n arwain at lai o gyfle ar gyfer gweithgareddau fel chwaraeon tîm a chymdeithasu gyda phlant o'r un oed. Efallai hefyd y ceir diffyg pwysau o du grwpiau cyfoedion a diffyg cymhelliant i ymgyrraedd at safonau uchel;
- mae cael nifer bach o staff addysgu yn golygu na ellir rhannu cyfrifoldeb dros bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn eang, gan osod pwysau gwaith trwm ar ysgwyddau'r athrawon a chyfyngu ar eu cyfle i ddatblygu arbenigedd mewn pynciau penodol;
- yn yr ysgolion lleiaf, sydd ag un neu ddau o athrawon yn unig, ceir pryderon ynghylch goruchwyliaeth ddigonol a chymorth os ceir argyfwng neu ddamwain;
- ceir penaethiaid sydd â dwy rôl, gan gyfuno ymrwymiad sylweddol i addysgu dosbarthiadau â chyfrifoldebau rheoli, sy'n gosod pwysau gwaith trwm arnynt.

Mae'n debygol hefyd mai ychydig iawn o amser y caiff athrawon y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn ystod y diwrnod gwaith, os cânt unhryw amser o gwbl;

- ceir anawsterau wrth ddenu staff addysgu i ysgolion lle y byddant, o bosibl, yn teimlo eu bod wedi'u hynysu'n broffesiynol ac wedi'u gorlwytho â gwaith;
- gall y safonau addysgu fod yn fwy amrywiol, oherwydd y bydd effaith un athro da neu un athro gwan yn fwy o lawer mewn ysgol fach nag mewn ysgol fwy;
- mae diffyg cyfleusterau a chyfarpar modern, ac weithiau nid oes hyd yn oed neuadd ysgol.

9. Mae'r rheini sydd o blaid ysgolion bach yn dadlau eu bod yn cael canlyniadau da ac yn cynnig amgylchedd cartrefol, croesawgar lle rhoddir llawer o sylw i unigolion, gan fod y dosbarthiadau mor fach. Yn aml, maent yn boblogaidd gyda rhieni, ac mae'n bosibl y bydd y rhieni'n chware rhan fawr yn addysg eu plant. Mae'n bosibl hefyd y bydd gan yr ysgolion hyn gysylltiadau cryf â'r gymuned. Dichon y bydd rhieni plant sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwerthfawrogi ysgolion bach, am eu bod yn fawr eu gofal o'r plant. Cyflwynodd Cymdeithas yr Ysgolion Bach dystiolaeth i'r Pwyllgor gan gyfeirio at astudiaeth gan OFSTED a ganfu fod ysgolion cynradd bach yn Lloegr yn perfformio'n well ym mhroffion Cam Allweddol 2 nag ysgolion mwy o faint, a bod ansawdd yr addysgu fymryn yn well a thueddiad i'r arweiniad fod yn gadarn a'r ethos yn gryf.

10. Serch hynny, mae'r dystiolaeth o'r TASau ac asesiadau athrawon yn awgrymu nad yw ysgolion cynradd bach yng Nghymru yn cyrraedd safonau uwch yng Nghymru nag mewn unrhyw ysgol arall. Mae'r graff yn Atodiad B yn dangos nad oes cydberthynas pan fesurir maint ysgol yn erbyn canlyniadau disgyblion. Ar gyfartaledd, nid yw'r ysgolion bach yn perfformio'n well nac yn waeth nag ysgolion mwy o faint, ond, yn yr un modd ag yn Lloegr, mae eu canlyniadau yn amrywio mwy. Pan gynhaliwyd ymarfer tebyg ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg, dangoswyd eu bod yn perfformio'n sylweddol well nag ysgolion cyfrwng Saesneg. Serch hynny, gellir priodoli hyn yn bennaf i ffactorau cymdeithasol: pan ychwanegir dangosydd amddifadedd (prydau ysgol di-dâl) i'r dadansoddiad, mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad yn llai amlwg o lawer. Yn yr un modd, pan edrychir eto ar ddata OFSTED gan ystyried faint o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol di-dâl, ni chanfyddir bellach fod yr ysgolion bach yn perfformio'n well. Nid yw defnyddio'r un dangosydd amddifadedd wrth ddadansoddi maint ysgolion yng Nghymru yn gwneud unrhyw wahaniaeth: nid yw canlyniadau disgyblion yn gysylltiedig â maint yr ysgol y maent yn ei mynychu. Mae'r dystiolaeth hon yn pwysleisio mai ansawdd yr addysgu

yw'r ffactor pwysicaf o ran cyrhaeddiad disgyblion, ac y gall hyn amrywio cymaint mewn ysgolion gwledig ag mewn unrhyw sefyllfa arall. Gall athrawon da orchfygu'r anawsterau a geir mewn ysgolion bach a manteisio ar yr agweddau cadarnhaol, ond nid yw pob un ohonynt yn llwyddo i wneud hynny.

11. Mae gan ysgolion uwchradd bach garfannau oedran mwy o faint, a mwy o staff addysgu, ond gallant hwythau hefyd wynebu'r problemau sy'n gysylltiedig â bod yn abl i ddarparu dewis digon eang o bynciau, yn enwedig yn y chweched dosbarth. Wrth ddadansoddi perfformiad mewn ysgolion uwchradd o'i gymharu â maint yr ysgol, dangosir nad yw ysgolion uwchradd bach, fel ysgolion cynradd, yn gwneud yn well nac yn waeth na rhai mwy o faint.

Problemau ariannol ysgolion bach

12. Gan hynny, mae ysgolion bach yn llwyddo i gael canlyniadau sydd cystal â rhai ysgolion mwy o faint, ond mae cost gwneud hynny yn uwch o lawer. Mae'r Comisiwn Archwilio yn diffinio ysgol gynradd fach fel un sydd â 90 o blant, oherwydd gwelwyd bod y gost fesul disgybl yn codi'n sylweddol y tu hwnt i'r pwynt hwnnw. Mae'r ysgolion hyn yn ddrutach i'w rhedeg, yn rhannol oherwydd bod eu dosbarthiadau yn dueddol o fod yn llai, ac yn rhannol oherwydd bod y gorbenion sefydlog yn uchel o'u cymharu â'r gyllideb. Yn Ynys Môn, er enghraifft, mae'n bolisi gan yr awdurdod i beidio â chael llai na dau aelod o staff ym mhob ysgol, ni waeth faint o ddisgyblion sydd yno, felly pan geir gostyngiad yn nifer y disgyblion, gall y gost fesul disgybl fod yn uchel iawn. Mae gwasanaethau cymorth addysg megis prydu ysgol, dysgu peripatetig a staff ymgynghorol hefyd yn anghymesur o uchel. Tra bo'r gwariant ar bob disgybl yng Nghymru, ar gyfartaledd, yn £2870, gall y gost ar gyfer ysgolion bach fod mor uchel â £6000 y disgybl.

13. Gan fod ysgolion bach, o bosibl, yn cael trafferth gweithio o fewn cyllideb a bennir yn unig gan nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr, dichon y bydd awdurdodau yn dewis rhoi lwfans ychwanegol i ysgolion bach fel rhan o'r trefniadau ar gyfer y cyllidebau a ddirprwyir iddynt. Er enghraifft, mae Powys yn rhoi lwfans ychwanegol i unrhyw ysgol sydd â llai na 35 o ddisgyblion, tua £11,000 y flwyddyn ar gyfartaledd, er mwyn sicrhau bod eu holl ysgolion bach yn gallu fforddio cyflogi o leiaf ddau athro. Mae 13 o'r 22 awdurdod hefyd yn cynnwys elfen o gyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion bach. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn cynnwys lwfans ychwanegol ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Er bod hyn, o bosibl, yn helpu ysgolion gwledig bach i oroesi, nid yw'n

gwneud dim i'w gwneud yn fwy cost effeithiol nac i ateb y cwestiwn sylfaenol ynghylch a yw cyfeirio lefelau uwch o gyllid at yr ysgolion hyn yn sicrhau'r canlyniadau a'r cyfleoedd addysgol gorau i bawb.

Oed a chyflwr yr adeiladau

14. Mewn rhannau o'r Gymru wledig mae patrwm y ddarpariaeth addysgol yn adlewyrchu anghenion y bedwaredd ganrif ar ddeg neu ddechrau'r ugeinfed ganrif. Mae llawer o'r adeiladau hefyd yn hanu o gyfnod cynharach. Mae'r adeiladau hŷn hyn yn ddrud i'w rhedeg a'u cynnal a'u cadw ac mae'n bosibl nad oes ynddynt y cyfleusterau sylfaenol sy'n angenrheidiol er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm modern. Mae'r Cynulliad wedi gosod targed o sicrhau bod holl adeiladau ysgolion yn cyrraedd y safon angenrheidiol erbyn 2010, ond mae nifer o awdurdodau'n teimlo na ellir gwneud hyn gyda'r stoc presennol os glynir at egwyddorion Gwerth Gorau. Mae angen peth ad-drefnu a chau rhai adeiladau er mwyn cyrraedd y targed a sicrhau bod pob disgybl yn cael ei addysgu mewn adeiladau addas.

Pwysigrwydd ysgolion bach yn y gymuned ac o ran cynnal yr iaith Gymraeg

15. Wrth i gyfleusterau eraill yn y gymuned – swyddfa'r post, siop y pentref, y capel – gau, gall yr ysgol ddod yn ganolbwynt bywyd y pentref. Gall cau ysgol o'r fath fod yn fygythiad pellach i gynaliadwyedd y gymuned leol. Mae'n bosibl na fydd rhieni am i'w plant deithio – fel rheol i ysgol mewn pentref arall – rhag ofn y byddant yn colli'u hunaniaeth leol a rhag ofn y byddant yn fwy tebygol, maes o law, o symud i ffwrdd, gan ychwanegu at ddirywiad yr ardal.

16. Yng Nghymru, mae mater ychwanegol i'w ystyried, sef yr iaith Gymraeg. Er bod cryn adfywiad i'w weld o safbwynt yr iaith mewn ardaloedd trefol ac yn y Cymoedd, mae pryderon bod diboblogi cefn gwlad yn effeithio ar yr ardaloedd traddodiadol Cymraeg eu hiaith. Os oes yn rhaid i blant deithio ymhellach ar gyfer eu haddysg, mae'n bosibl na chânt eu 'trochi' i'r fath raddau yn yr iaith, ac y byddant yn llai tebygol o'i defnyddio mewn cyd-destunau cymdeithasol.

Faint o ysgolion bach sydd?

17. Mae'r tabl yn Atodiad C yn dangos nifer yr ysgolion bach ym mhob awdurdod yng Nghymru, gan ddefnyddio'r diffiniadau o lai na 90 disgybl ar y gofrestr ar gyfer

ysgolion cynradd; llai na 600 ar y gofrestr ar gyfer ysgol uwchradd 11-16 oed a llai na 700 ar gyfer ysgol uwchradd sydd â chweched dosbarth. Yr Awdurdodau Addysg Lleol sydd â'r ganran uchaf o ysgolion bach yw'r rhai mwyaf gwledig hefyd, sef Ceredigion, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin, Sir Ddinbych, Powys, Conwy, Ynys Môn a Sir Benfro. Mae'n werth nodi mai Ceredigion, Powys a Sir Gaerfyrddin yw'r awdurdodau sydd hefyd yn gwario'r symiau mwyaf fesul disgybl, er bod Sir Ddinbych yn drydedd o'r gwaelod.

Canfyddiadau Grwp Gorchwyl a Gorffen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

18. Pwysleisiodd y Grwp o'r cychwyn mai mater i'r awdurdodau unigol yw penderfynu a oes angen ad-drefnu neu gyfuno'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes. Er hynny, yr oeddent yn teimlo ei bod yn amlwg bod ar ysgolion bach angen lefel anghymesur o adnoddau a'i bod yn hanfodol bod yr awdurdodau yn ystyried effaith yr ariannu hwn ar ysgolion eraill, yn enwedig y rheini sy'n gwasanaethu cymunedau difreintiedig, wrth wneud y penderfyniadau hynny – gan ystyried ar yr un pryd yr hyn a oedd orau gan gymunedau gwledig lleol. Mae'n cynnig cyngor ar arferion da yn ei Adroddiad ac yn gwneud yr argymhellion canlynol:

- pa strategaeth bynnag a fabwysiedir gan awdurdod mewn perthynas ag ysgolion bach, dylid ymgynghori'n eang yn ei chylch, gan gynnwys unrhyw strategaeth ar gyfer diogelu ysgolion bach rhag cael eu cau;
- mae angen ystyried ysgolion cynradd bach ac ysgolion uwchradd bach;
- dylai strategaeth pob awdurdod fynd i'r afael ag anghenion ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol;
- mae angen datblygu cynlluniau dros gyfnod, ac awgrymir bod 3-4 blynedd yn gyfnod rhesymol i anelu ato;
- ni ddylid newid er mwyn newid na derbyn y sefyllfa sydd ohoni yn ddi-gwestiwn;
- rhaid i unrhyw arbedion a ddaw yn sgil cau ysgol fach aros yn y gyllideb addysg.

19. Os yw'r awdurdodau yn barnu bod dadl o blaid cadw a chefnogi eu hysgolion bach, ymhlith y dewisiadau a allai eu helpu y mae'r canlynol:

- Cydweithio
- Cysylltu
- Cydweithredu
- Partneriaeth
- Partneriaeth a chyd-bwyllgorau llywodraethwyr

- Ffedereiddio

20. Mae angen i ddisgyblion a myfyrwyr gael eu haddysgu mewn adeiladau pwrpasol lle mae'r amrediad gorau posibl o addysgu, deunyddiau a phrofiad ar gael iddynt. Ni ddylid ystyried mai brwydr "rhwng y dref a'r wlad" yw hon – mae pob disgybl a myfyriwr yn Nghymru, ni waeth lle y mae, yn haeddu addysg dda.

21. Mae angen i'r awdurdodau lleol ystyried patrwm lleol penodol eu hysgolion, a'r cydberthynas rhwng y ffactorau allweddol gan gynnwys lleoedd dros ben, cyflwr yr adeiladau, cyfleoedd addysgol ac anghenion cymunedau. Bydd yn rhaid wrth ad-drefnu er mwyn sicrhau cyfleoedd addysgol ac adeiladau ysgol o'r radd flaenaf i bawb. Daeth y grwp i'r casgliad bod yn rhaid ystyried y materion canlynol:

- Yn fynych, mae'r ddarpariaeth bresennol yn adlewyrchu anghenion cymunedau ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond mae'r anghenion hynny dipyn yn llai erbyn hyn. Mae newidiadau demograffig yn golygu nad yw rhai ysgolion yn gynaliadwy bellach.
- Rhaid caniatáu i'r awdurdodau lleol ddatblygu a gweithredu strategaethau sy'n gweddu orau i'r anghenion lleol. Os nad yw ysgolion yn gynaliadwy, ni ddylai'r awdurdod lleol fod ag ofn cau'r ysgol neu awgrymu bod ffederasiynau, trefniadau cydweithredol neu glystyrau yn cael eu sefydlu.
- Ni ddylid cadw ysgolion bach ar draul ysgolion mwy. Mae'r dystiolaeth bod ysgolion bach yn gallu costio hyd at 200% yn fwy fesul disgybl yn dangos ei bod yn anochel bod ysgolion mwy yn cael llai o arian. Rhaid ariannu ar sail angen, yn hytrach nag ar sail damwain ddaearyddol.
- Ni ellir gwireddu nod y Cynulliad Cenedlaethol o ddarparu adeiladau ysgol digonol i bawb erbyn 2010 oni chaiff rhai adeiladau ysgol, nad ydynt yn cael eu defnyddio bellach neu nad ydynt yn ddichonol, nac yn gynaliadwy, eu cau. Rhaid rhyddhau arian i ddiwallu anghenion mewn ardaloedd lle mae'r angen mwyaf.

Polisi Presennol y Cynulliad

22. Nodir y polisi presennol ar aildrefnu ysgolion mewn Cylchlythyr gan y Swyddfa Gymreig, a gyhoeddwyd rai blynyddoedd yn ôl, mewn atodiad i'r Cylchlythyr hwnnw a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 1999 ac mewn Cylchlythyr pellach ym mis Medi 1999. Dosbarthwyd Cylchlythyr cadarnhau ym mis Mehefin, a gwahoddwyd sylwadau arno, ond ni chafodd ei gyhoeddi'n ffurfiol gan y byddai'r Pwyllgor yn cynnal astudiaeth at gyflenwi lleoedd mewn ysgolion a chan ein bod yn datblygu polisi ar ysgolion gwledig. Mae'r prif bwyntiau o'r canllawiau sy'n bodoli eisoes fel a ganlyn:

“Byddai'r Cynulliad yn disgwyl i'r rheini sy'n cyflwyno cynigion i sicrhau – lle y bo amgylchiadau ariannol, ieithyddol a lleol yn caniatáu – bod gwella a chryfhau

ysgolion poblogaidd sydd o ansawdd uchel yn cael y flaenoriaeth uchaf mewn cynlluniau i aildrefnu.”

“Mae'r Cynulliad yn awyddus i sicrhau bod cynigion i ad-drefnu yn adlewyrchu'r angen am gynnal a gwella safonau a'r dewis sydd gan rieni. Fel rheol, ni fyddem y barod i gymeradwyo bod ysgol boblogaidd ac effeithiol yn cael ei chau oni bai fod yna dystiolaeth sy'n dangos bod y dewis arall arfaethedig yn cynnig addysg sydd o leiaf gystal o ran ansawdd ac amrywiaeth, am gost a fyddai'n is na phe bai'r ysgol yn aros ar agor. Fel egwyddor gyffredinol, wrth benderfynu pa ysgol neu ysgolion a ddylai gau mewn ardal lle mae lleoedd dros ben, dylid rhoi ystyriaeth i adroddiadau arolygu gan ESTYN ac i ddata arall ar berfformiad ysgolion yn ogystal ag i'r galw am leoedd ynddynt.”

“Bydd yr ystyriaethau allweddol wrth benderfynu ar gynigion i newid patrwm y ddarpariaeth ysgolion fel a ganlyn:

- effaith unrhyw newid arfaethedig ar safon yr addysg sydd i'w darparu yn yr ardal;
- yr angen am y math penodol o ddarpariaeth a gynigir;
- effaith y newid arfaethedig ar gyfran y lleoedd enwadol sydd yn yr ardal;
- yr angen i'r AAL'au gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Gwahaniaethau ar sail Rhyw 1975, gan gynnwys y ddarpariaethau hynny sy'n ymwneud ag ysgolion un rhyw;
- barn y rheini y mae'r cynigion yn effeithio arnynt yn fwyaf uniongyrchol, megis rhieni ac ysgolion eraill yn yr ardal;

- pa mor gost effeithiol yw cynigion, ac a oes adnoddau ariannol digonol ar gael i roi'r cynigion ar waith;
- effaith y newid arfaethedig ar faint o amser a gymerir i deithio i'r ysgol;
- effaith y newid arfaethedig ar sicrhau bod ysgolion, yn enwedig ysgolion gwledig, o fewn cyrraedd hwylus;
- i ba raddau y byddai cynigion yn meithrin cydweithrediad rhwng darparwyr addysg ar ôl 16 oed."

23. Mae'r canllawiau hyn yr un mor gymwys i bob penderfyniad ar aildrefnu, boed wledig neu drefol. Nid yw'n fwriad gennyf newid y dull hwnnw o weithredu yn sylweddol, er fy mod am roi ychydig mwy o bwyslais ar ystyried effaith yr amser a gymerir i deithio i'r ysgol ac i ba raddau yr edrychwyd ar atebion posibl eraill. Yr wyf hefyd yn bwriadu ei gwneud yn fwy clir mai'r prif flaenoriaeth yw sicrhau'r cyrhaeddiad a'r cyfleoedd addysgol gorau posibl.

24. Yn Lloegr, yn ystod yr 80'au ac ar ddechrau'r 90'au, caewyd niferoedd sylweddol o ysgolion bach gwledig (rhoddwyd cymeradwyaeth i gau 450 o ysgolion gwledig rhwng 1983 a 1997). Yna tynhawyd y polisi er mwyn gwneud hyn yn anos. Mabwysiadodd yr Ysgrifennydd Gwladol ragdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig – oni bai fod yr achos yn un cryf a'r cynigion yn amlwg er lles y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal. Erbyn hyn, dim ond pedair neu bum ysgol y flwyddyn sy'n cael eu cau.

25. Yng Nghymru, gwelwyd llai o gau a chyfuno, a dim ond un neu ddau o gynigion y flwyddyn yn cael eu cymeradwyo. Mae gennym niferoedd mawr o ysgolion cynradd bach o hyd – mae gan 14% ohonynt 50 neu lai o ddisgyblion, o'u cymharu â 4% yn Lloegr; mae gan 33% ohonynt 100 o ddisgyblion neu lai, o'u cymharu â 15% yn Lloegr. Nid wyf o'r farn, felly, ein bod yn barod yng Nghymru i newid i ddull mwy caeth o weithredu, yn hytrach nag un sy'n cadw'r ddysgl yn wastad rhwng manteision ac anfanteision pob achos unigol. Mae'n amlwg bod grwp Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'r un farn.

Rolau'r Awdurdodau Addysg Lleol a'r Cynulliad

26. Rhaid i benderfyniadau ar ddyfodol ysgolion gwledig ac ysgolion bach, yn ogystal â dosbarthiad cyffredinol yr ysgolion a ddarperir, a'r amrywiaeth o ysgolion enwadol ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, barhau yn brif gyfrifoldeb i'r awdurdodau addysg lleol. Hwy sydd yn y lle gorau i bwysu a mesur yr ystyriaethau perthnasol a phenderfynu pryd y mae angen i ysgol aros ar agor ac a oes angen cymorth ychwanegol arni i wneud hynny, a phryd y byddai rhyw ffurf ar aildrefnu neu gau ysgol o fudd addysgol i blant lleol.

27. Rôl y Cynulliad yw pennu fframwaith polisi sy'n rhoi canllawiau i'r awdurdodau am y materion y mae'r Cynulliad yn disgwyl i'r awdurdodau eu hystyried wrth adolygu'r ddarpariaeth a gynigir ganddynt ac wrth lunio eu Cynlluniau Trefniadaeth Ysgol. Yr ydym hefyd yn cyhoeddi canllawiau ar y ffactorau yr wyf innau'n rhoi ystyriaeth iddynt, yn rhinwedd fy swydd fel y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, wrth benderfynu ar gynigion sy'n dod ger fy mron.

28. Nid yw'n fwriad gan y Cynulliad fod yn rhy haearnidd trwy bennu terfynau sefydlog, er enghraifft, na ddylai unrhyw ysgol erioed fod â llai na nifer penodol o ddisgyblion neu drwy ragdybio, ni waeth beth y bo'r gost, na ddylai ysgolion bach gael eu cau. Nid ydym ychwaith o'r farn y dylai'r Cynulliad fod yn cyfeirio arian at gategoriâu penodol o ysgolion. Ein bwriad yw cadw at y trefniadau presennol lle caiff arian ar gyfer addysg ei ddsbarthu trwy'r setliad refeniw llywodraeth leol a lle mae o leiaf 75% o gyllidebau dirprwyedig ysgolion yn gysylltiedig â nifer y disgyblion sydd yn yr ysgol. Mae gan yr AAL'au gryn ryddid i wneud penderfyniadau am y fformwla sy'n gysylltiedig â disgyblion a fabwysiedir ganddynt ac am sut orau i ddsbarthu gweddill y cyllid yn eu hardal hwy. Mae'n bosibl y bydd rhai yn dewis talu lwfans ychwanegol i ysgolion bach, ac eraill, o bosibl, yn rhoi cyllid ychwanegol i ysgolion cyfrwng Cymraeg – mae'r system bresennol yn caniatáu peth hyblygrwydd ac nid wyf am gollu hwnnw.

Y dewisiadau ar gyfer cynnal ysgolion bach gwledig

29. Os yw awdurdod yn gweld bod angen cadw rhai ysgolion bach, er mwyn darparu addysg o fewn pellter rhesymol i gartrefi disgyblion, mae amryfal ffyrdd o fynd ati i helpu'r ysgolion hynny gynnig yr ystod llawn o gyfleoedd addysgol i'w disgyblion mewn ffordd fwy effeithiol. Ni fydd pob un o'r rhain yn gymwys ym mhob achos, ond byddwn yn disgwyl i unrhyw awdurdod sy'n cynnig bod ysgol yn cael ei chau fedru

dangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth fanwl a difrifol i ddewisiadau o'r fath a bod â rhesymau clir dros beidio â mynd ar drywydd y dewisiadau hynny.

30. At ei gilydd, mae'r dulliau gwahanol hyn o weithredu yn cynnwys gwahanol raddau o gydweithio rhwng ysgolion er mwyn sicrhau bod disgyblion ac athrawon yn llai ynysig, ac weithiau'n cynnwys rhannu adnoddau. Gall hyn gynnwys cydweithredu ffurfiol, lle mae'r athrawon a'r penaethiaid yn cyfarfod i drafod materion cyfredol, i lunio dogfennau polisi a chynlluniau gwaith, neu bartneriaethau mwy strwythuredig neu drefniadau "clystyru" lle mae rhai agweddau ar y cwricwlwm yn cael eu dysgu ar y cyd a lle rhennir athrawon ac adnoddau eraill. Mae'n bosibl y bydd athrawon unigol yn gyfrifol am gydlynw un pwnc mewn clwstwr o ysgolion neu weithiau bydd plant yn teithio i ysgol arall i astudio gyda phlant o'r un oed. Gellir hefyd rannu gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol.

31. Ffedereiddio sawl ysgol o dan un Pennaeth ac un corff llywodraethu yw'r mwyaf ffurfiol o blith y dulliau hyn ac mae angen gweithdrefnau statudol cyn y gellir rhoi hyn ar waith. Mae enghreifftiau yng Nghymru eisoes o'r dull hwn o weithredu. Y manteision yw bod yna dîm addysgu mwy o faint, mwy o sefydlogrwydd a phosibilrwydd o greu Pennaeth nad yw'n addysgu ac sy'n gallu rhoi arweiniad cadarn. Nid oes un o'r dewisiadau hyn, er hynny, yn arwain at arbedion ariannol, yn bennaf am eu bod yn golygu bod yr holl adeiladau yn cael eu cadw. Mae'n bosibl y bydd llai o swyddi i Benaethiaid mewn ysgol sydd wedi'i ffedereiddio, ond mae yno hefyd gostau ychwanegol gan fod cyflog y Pennaeth newydd yn uwch a chan ei b/fod yn treulio llai o amser yn addysgu ac yn teithio rhwng y naill safle a'r llall.

32. Os yw ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd mewn unrhyw un o'r ffyrdd hyn, mae'n bosibl y byddai datblygu cysylltiadau TG o gymorth mawr iddynt. Mae cryn bosibiliadau i'r cyfarpar hwn ond hyd yn hyn ni fanteisiwyd arno i'r eithaf. Mae rhai ysgolion bach wedi bod yn arbennig o arloesol wrth ddefnyddio TGCh: mae llawer o ysgolion yn defnyddio E-bost eisoes a dylai pob ysgol weldig fod wedi'i chysylltu ymhen y ddwy flynedd nesaf. Gall penaethiaid ddefnyddio'r cyfleuster hwn i gadw mewn cysylltiad â'r AALI ac ag ysgolion eraill. Gall fideogynadledda arbed yr angen am deithio i gyfarfodydd staff, gall ganiatáu i'r Pennaeth arwain gwasanaeth ar gyfer yr ysgol gyfan heb fod angen i'r disgyblion deithio neu gall athro/athrawes arbenigol roi'r un wers i ddsbarthiadau mewn ysgolion eraill. Mae'r Cynulliad eisoes yn rhoi cymorth ar gyfer datblygu TGCh mewn ysgolion gan fuddsoddi'n helaeth trwy'r Strategaeth TGCh ar gyfer Dysgu. At hynny, cyhoeddwyd yn ddiweddar iawn y

byddai £18.4m arall ar gael i gyflymu'r broses o gyflwyno gwasanaethau rhyngwyd band llydan cyflym mewn ysgolion, llyfrgelloedd a chanolfannau dysgu gydol oes yng Nghymru. Darperir cyfarpar aml-gyfrwng rhyngweithiol ym mhob ysgol yng Nghymru, a bydd cyllid ar gael ar gyfer hyfforddi'r rhai a fydd yn ei ddefnyddio. Mae'n amlwg na all TGCh ddisodli'r athro/athrawes yn llwyr, ond wrth i'r dechnoleg fod ar gael yn fwy eang, ac wrth iddi gael ei derbyn yn rhywbeth arferol ym mhob ysgol, dylai gynnig cyfleoedd go iawn i ysgolion gwledig deimlo'n llai ynysig a dysgu am y datblygiadau diweddaraf.

33. Mae yn gyfleoedd gwirioneddol hefyd i gyfleusterau TGCh mewn ysgolion gael eu defnyddio gan y gymuned a chan fyfyrwyr hŷn, a thrwy hynny, gefnogi'r agenda dysgu gydol oes a defnyddio mwy ar adeiladau ysgolion.

34. Ar hyn o bryd, dim ond cyd-bwyllgorau gwirfoddol i'r cyrff llywodraethu y caiff ysgolion sydd wedi'u clystyru eu sefydlu, ond fel y crybwyllir yn *Y Wlad sy'n Dysgu*, yn y Mesur Addysg sydd ar y gweill byddwn yn ceisio newid y ddeddfwriaeth er mwyn caniatáu i ysgolion bach ffurfio grwpiau o dan un tîm arweinyddiaeth a chydag un corff llywodraethu. Yr ydym hefyd am ddiwygio Rheoliadau er mwyn diogelu sefyllfa ysgolion a ffedereiddiwyd. Ar hyn o bryd, pan gaiff ysgol o'r fath ei sefydlu, bydd, trwy ddiffiniad, yn gweithio ar ddau neu fwy o safleoedd, ond gellir cau safle heb ymgynghori â'r cyhoedd neu heb gyhoeddi hysbysiad statudol. Os cynigir bod ysgolion yn eu hardal yn cael eu ffedereiddio, teimlaf y dylai rhieni a chymunedau lleol gael sicrwydd y byddai'n rhaid cyfiawnhau o'r newydd unrhyw newid pellach a fyddai'n golygu bod un o'r safleoedd yn cael eu cau.

35. O dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd y problemau, o safbwynt addysgol, yn ymwneud yn fwy â lleoedd dros ben nag â maint yr ysgol, ac un ateb posibl fyddai defnyddio mwy ar yr adeiladau er budd y gymuned ehangach.

Arian ar gyfer arloesi

36. Mae'n anochel y bydd yn rhaid wrth arian ac ymdrech i ddatblygu dulliau newydd o ddarparu addysg. Mae unrhyw ddewis sy'n golygu rhoi mwy o ran i'r gymuned yn rhwym o arwain at drafodaethau helaeth y tu allan i'r ysgol. Yn ogystal â golygu y bydd yn rhaid i'r AALI gyfrannu'n helaeth at y broses hon, yr wyf yn ymwybodol y bydd yn rhoi beichiau ychwanegol ar y Penaethiaid a'r staff sydd. Mae'n bosibl y bydd angen addasu adeiladau'r ysgol i raddau neu y bydd angen cyfarpar

ychwanegol. Yr wyf am ddarparu peth cymorth oddi wrth y Cynulliad ar gyfer y math hwn o gynllun. Yng nghyllideb ddrafft y Cynulliad yr wyf wedi sicrhau gwerth £2m o arian ychwanegol y flwyddyn nesaf – yr un swm ag a oedd ar gael y llynedd, yn dilyn yr astudiaeth ar feichiau biwrocraidd, ar ffurf grant i bob ysgol i'w cynorthwyo â'u gorchwylion gweinyddol – a £3.5m y flwyddyn wedyn.

37. Mae'n fwriad gennyf drefnu bod yr arian hwn ar gael i'r AALL'au trwy Adroddiad Grant Arbennig. Byddwn yn trafod sut yn union i fynd ati i ddosbarthu'r arian, a'r dibenion y cymeradwyr yr arian ar eu cyfer, gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru maes o law, ac wrth reswm, bydd profiad yr AALL'au yn ystod y flwyddyn gyntaf yn sail i'r ffordd yr awn ati yn ystod yr ail flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae fy mryd ar ddosbarthu'r arian i bob AALI gan ddefnyddio fformwla ddosbarthu safonol sy'n rhoi peth ystyriaeth i ba mor denau yw'r boblogaeth yn yr ardal. Yr wyf hefyd yn tueddu at ddiffiniad gweddol eang o'r dibenion cymwys y ceir defnyddio'r adnoddau ychwanegol ar eu cyfer, fel y bo ystod o gynlluniau ac anghenion yn gymwys. Un diben cymwys ar gyfer y grant hwn fyddai ysgafnhau'r baich biwrocraidd ar ysgolion, gan gyfeirio hyn yn benodol, yn ôl pob tebyg, at yr ysgolion llai hynny y mae gan eu Penaethiaid ymrwymiad sylweddol yn yr ystafell ddosbarth. Byddwn hefyd yn disgwyl i'r awdurdodau allu cyfeirio arian ychwanegol at gynlluniau i annog cymunedau i ddefnyddio adeiladau ysgolion. Mae'n amlwg na fyddai pob ysgol, o reidrwydd, yn cael grant, hyd yn oed yn yr ardaloedd gwledig.

Barn y Cynulliad am ysgolion bach ac ysgolion gwledig

38. Ein blaenoriaeth o safbwynt darparu addysg yn ardaloedd gwledig Cymru yw y dylai addysg o safon fod ar gael i'r disgyblion sy'n byw yno. Mae'r disgyblion hyn yn haeddu cystal addysg ac ystod yr un mor eang o gyfleoedd â'r disgyblion mewn unrhyw ran arall o Gymru. Yr ydym am gau'r bwlch rhwng perfformiad y naill ysgol a'r llall a gwella safonau ar draws Cymru gyfan. Felly, rhaid i unrhyw benderfyniad i aildrefnu mewn ardaloedd gwledig ganolbwyntio'n bennaf ar faterion addysgol ac ar ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael mewn ffordd mor effeithiol â phosibl er mwyn cynnal a gwella safonau. Bydd yna faterion eraill y bydd angen eu hystyried: mae barn y rhieni a'r effaith y gallai gau ysgol ei chael ar y gymuned leol yn bwysig. Pryd bynnag y gellir dod o hyd i ateb sy'n bodloni buddiannau addysgol a buddiannau'r gymuned, rhaid mynd ar ei ôl yn egniol, ond os oes gwrthdaro, mae anghenion dysgwyr yn bwysicach na dim arall.

39. Yr wyf yn ddiolchgar i Grwp Gorchwyl a Gorffen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am ei adroddiad, ac i raddau helaeth, yr wyf yn cymeradwyo'r canfyddiadau sydd ynddo. Hoffwn roi ychydig mwy o bwyslais ar bwysigrwydd darparu ysgolion lleol o fewn pellter rhesymol i gartrefi disgyblion. Mae'n amlwg bod sicrhau hyn yn anos mewn ardaloedd gwledig, ac mae'n anochel y bydd yn rhaid i ddisgyblion mewn ardaloedd tenau eu poblogaeth deithio ymhellach i'r ysgol na'r rheini mewn lleoliadau trefol. Yr wyf o'r un farn â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth iddi ddod i'r casgliad bod lle yng Nghymru o hyd i gyfuno darpariaeth mewn ardaloedd gwledig, ond rhaid i ni gydnabod bod yn rhaid cadw ysgol fach ar agor ambell dro, er bod y costau'n ddrutach nag ar gyfartaledd, am fod unrhyw ddarpariaeth arall yn rhy bell.

40. Mae'r Cynulliad am annog yr awdurdodau i adolygu'r ddarpariaeth addysgol mewn ardaloedd trefol ac mewn ardaloedd gwledig er mwyn gweld lle mae angen gweithredu. Wrth wneud hyn, mae angen iddynt roi ystyriaeth i'r canlynol:

- Amrywiadau yn y lefelau cyrhaeddiad rhwng eu hysgolion, a pha gamau sy'n fwyaf tebygol o gau'r bwlch;
- Rhagweld y galw am leoedd mewn ysgolion a'r berthynas rhwng dosbarthiad y galw hwnnw a lleoliad ysgolion sy'n bodoli eisoes, gan edrych ar wahân ar y galw am fathau penodol o ysgolion megis ysgolion enwadol ac ysgolion cyfrwng Cymraeg;
- Maint yr ysgolion sy'n bodoli eisoes ac a yw hyn yn achosi unrhyw broblemau penodol, gan edrych yn arbennig yn y sector cynradd ar faint o addysgu oed cymysg a wneir, ar yr ymrwymiad addysgu sydd gan Benaethiaid, ar nifer y disgyblion ym mhob grwp oedran, ac ystyried a yw pob ysgol yn cynnig ystod llawn y cwricwlwm;
- Nifer y lleoedd sydd dros ben;
- Cyflwr adeiladau'r ysgolion a'r cyfleusterau sydd ar gael;
- Y gost fesul disgybl ym mhob un o'u hysgolion.

41. Yn y cyd-destun ehangach hwn, hoffem awgrymu bod angen talu sylw arbennig i'r canlynol:

- unrhyw ysgolion cynradd sydd â llai na phedwar athro;
- grwpiau blwyddyn sy'n cynnwys llai na 8 – 10 disgybl yn rheolaidd;
- penaethiaid sydd ag ymrwymiad addysgu sylweddol;

- dosbarthiadau oed cymysg sy'n cynnwys mwy na dau grwp oedran neu lle yr addysgir mwy nag un Cam Allweddol;
- ysgolion sydd â mwy na 25% o leoedd dros ben (a mwy na 30 o leoedd gwag).

42. Os yw adolygiadau o'r fath yn awgrymu bod angen gweithredu neu aildrefnu'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig, dylai'r awdurdodau geisio gwneud y canlynol:

- edrych ar ddewisiadau eraill heblaw am gau ysgolion, megis ffedereiddio, clystyru a rhwydweithiau TG, gan ddefnyddio, lle bo hynny'n briodol, yr arian sydd ar gael oddi wrth y Cynulliad ar gyfer arloesi ac ar gyfer TGCh;
- datblygu ysgolion sy'n cael eu cadw yn asedau ar gyfer y gymuned, gan weithio ar y cyd ag asiantaethau eraill ac adrannau eraill yr awdurdod;
- targedu buddsoddiad cyfalaf mewn ffordd strategol gan roi ystyriaeth i'r agenda adfywio cymunedau;
- ystyried effaith unrhyw aildrefnu ar hyd y daith i'r ysgol, gan anelu at sicrhau nad yw disgyblion, fel rheol, yn teithio mwy na 45 munud i ysgol gynradd a 60 munud i ysgol uwchradd.

Argymhellion

43. Yr wyf yn argymhell bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r camau canlynol arfaethedig:

- Cyhoeddi'r canllawiau diwygiedig ar aildrefnu ysgolion a geir yn Atodiad D at ddibenion ymgynghori;
- Bod swyddogion yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ganllawiau ymarferol pellach i'r AALI'au ar y gweithdrefnau ar gyfer gwneud cynigion, gyda'r nod o wneud y prosesau yn gliriach ac yn llai beichus;
- Ymgynghori ar Reoliadau diwygiedig :
 - i newid y cyfnod gwrthwynebu statudol ar gyfer cynigion o ddau fis i un mis; ac
 - i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau ymgynghori a dilyn y gweithdrefnau statudol cyn cau safle ysgol sydd wedi'i ffedereiddio;
- Cyflwyno Adroddiad Grant Arbennig i ddsbarthu gwerth £2m o arian ychwanegol i'r AALI'au i gefnogi ffyrdd arloesol o gynniig addysg mewn lleoliad gwledig; i ysgafnhau'r baich gweinyddol, yn enwedig ar benaethiaid sy'n

addysgu, neu i hwyluso mwy o ddefnydd gan y gymuned o adeiladau a chyfleusterau ysgolion;

- Annog yr AALl'au i rannu'r arferion gorau, yn arbennig ar ddulliau gwahanol o weithredu;
- Penderfynu ar unrhyw gynigion sy'n dod ger fy mron yn ddiymdroi, a bob amser, cyn pen tri mis i'r dyddiad y daw'r holl wybodaeth ategol i ddwylo'r swyddogion;
- Sicrhau bod fy swyddogion
 - yn parhau i fynd ar drywydd methodoleg well ar gyfer mesur y lleoedd sydd ar gael mewn ysgol, gan gynnwys gwneud ail arolwg o'r adeiladau lle y bo angen, gan ddefnyddio arian a ddarperir gan y Cynulliad;
 - cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar Gynlluniau Trefniadaeth Ysgol a mynd ar drywydd y dewisiadau ar gyfer gwell amserlen flynyddol
